Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Onnen

**Heol Farteg**
**Pont-y-Pŵl**
**NP4 7RT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Bryn Onnen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bryn Onnen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 191 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 147 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 23.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 19.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/07/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn yr ethos hapus a chartrefol sy'n bodoli yn Ysgol Bryn Onnen. Mae perthynas weithiol hyfryd rhwng y staff a'r disgyblion ac mae blaenoriaeth amlwg yn cael ei gosod ar wella lles y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes angen clust i wrando ac, o ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel iawn o fewn naws gynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at eraill.

Mae'r Gymraeg yn newydd i bob disgybl wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud, ac, mae eu hymroddiad mewn gwersi yn dda. Ar y cyfan, mae eu medrau llythrennedd Saesneg a rhifedd yn datblygu'n bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau'n ddigon effeithiol i ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau digidol yn araf. Ar draws yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn sicrhau her gyson ar gyfer pob disgybl, sydd yn ei dro, yn arafu'r cynnydd yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae'r uwch dim rheoli newydd yn dechrau cyflawni eu rolau'n briodol ac yn cefnogi athrawon a chynorthwywyr yn gadarn. Mae gan arweinwyr drefniadau hunanwerthuso sefydlog i adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er hyn, nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon strategol a miniog i sicrhau gwelliannau mewn safonau dysgu ac addysgu. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff ac yn sicrhau bod trefniadau diogelu'r ysgol yn gadarn.

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol yn fwy effeithiol

A2 Codi safonau Cymraeg disgyblion, yn enwedig eu medrau ysgrifennu

A3 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her gyson ar gyfer pob disgybl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau cyfathrebu a chymdeithasol llawer o ddisgyblion yn is na'r disgwyl am eu hoedran a'u cam datblygu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau o gymharu â'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion uwch eu gallu yn gwneud cynnydd addas.

Er bod pob disgybl yn dechrau'r ysgol heb fynediad blaenorol i'r Gymraeg, maent yn caffael yr iaith yn fuan. Erbyn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod gynyddol o eirfa ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Wrth i ddisgyblion aeddfedu, mae llawer yn datblygu eu medrau llafar yn bwrpasol wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i 6 yn trafod eu gwaith yn gynyddol hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion hynaf yn dechrau defnyddio ystod o eirfa effeithiol yn eu hesboniadau yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda.

Trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, mae llawer o ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn datblygu eu gwybodaeth o seiniau llythrennau yn briodol. Maent yn magu hyder ac yn dechrau gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau darllen. Mae llawer yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn dechrau rhoi stori mewn trefn gyda chymorth staff. Erbyn Blwyddyn 3, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau syml yn gywir ac yn datblygu eu medrau yn y ddwy iaith yn addas. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn gymwys i adalw gwybodaeth i greu cyflwyniadau, er enghraifft ar gynhesu byd eang. Ar frig yr ysgol, mae medrau darllen y disgyblion yn Saesneg yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg yn araf. Yn ogystal, mae mwynhad disgyblion o ddarllen testunau gan awduron gwahanol yn addas.

Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn dechrau arbrofi drwy wneud marciau a dechrau ffurfio llythrennau'n bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 a 2 yn adeiladu ar eu medrau i ysgrifennu geiriau a llunio brawddegau syml, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am seiniau a llythrennau yn briodol. O Flwyddyn 3 i 6, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ystyried y gynulleidfa a, phan gânt y cyfle, yn dewis geirfa'n fwy aeddfed ac iaith ddisgrifiadol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu adroddiad am anifeiliaid yn addasu i newidiadau amgylcheddol yn briodol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon adeiladol dros amser. Yn gyffredinol, mae ansawdd ysgrifennu Cymraeg llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn wan.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O'r dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn caffel medrau sylfaenol mathemateg yn briodol. Er enghraifft, wrth iddynt adnabod amrywiaeth o siapiau cyfarwydd a chyfri gwrthrychau hyd at 10. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth

drylwyr o nodweddion mathemategol ac maent yn eu defnyddio'n hyderus yn eu profiadau dysgu a chwarae, er enghraifft wrth fesur hyd gwrthrychau mewn centimetrau. Mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau rhifedd yn gynyddol hyderus mewn gweithgareddau mathemateg ac, yn dechrau eu defnyddio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymhwyso'u gwybodaeth am arian i greu cyllideb fwyd wythnosol o fewn ffiniau dogni penodol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigonol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu medrau digidol i gyfarwyddo teclyn i symud ac yn defnyddio apiau i gefnogi eu gwaith iaith a mathemateg yn bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni perthnasol yn fedrus wrth ddefnyddio taenlenni, er enghraifft wrth gyfrifo cyfartaledd tymereddau gwahanol ac wrth ddatblygu eu medrau codio i greu cloc. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu ystod o fedrau digidol yn adeiladol dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn datblygu ystod dda o dechnegau i greu darluniau o chwaraewyr rygbi ac yn defnyddio adnoddau naturiol o'r amgylchfyd lleol i greu darnau celf syml, er enghraifft. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hyder ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig wrth berfformio mewn cyngherddau ysgol a thrwy ddysgu chwarae offerynnau amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol gyda hyder cynyddol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau, a phan ddaw'r cyfle, mewn cystadlaethau lleol. At ei gilydd, nid yw medrau meddwl a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae amgylchedd hapus a chroesawgar yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod bron bob disgybl yn cael eu gwerthfawrogi o fewn cymuned ofalgar yr ysgol. Mae bron bob un yn gwybod at bwy i droi am gefnogaeth, fel y bo angen, ac mae perthnasedd gwaith pwrpasol rhwng staff a disgyblion yn eu cefnogi i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn cyfathrebu'n gwrtais a pharchus â'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae gofal a chefnogaeth disgyblion i'w gilydd yn nodwedd gref, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf gyd-chwarae'n hapus â'r disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymdeimlad o falchder at eu hysgol a'u cymuned. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson ac, o ganlyniad, mae'r gyfradd presenoldeb yn gadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn cyfrannu at beth yr hoffent ddysgu ac maent yn awyddus i drafod eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu, yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau annibynnol yn gynyddol fedrus wrth iddynt weithio mewn grwpiau bychan heb arweiniad oedolyn. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau ar dasgau ac yn gyfranwyr mentrus mewn grŵp, er enghraifft wrth iddynt greu teclyn i fesur effaith ymarfer corff ar guriad y

galon. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion ym Mlwyddyn 3 i 6 yn adeiladu ar eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cael cyfle priodol i gynrychioli eu cyfoedion mewn cynghorau llais y disgybl. Mae'r aelodau'n falch o fod yn rhan o gyngor ac maent yn dechrau cyflawni eu rolau'n addas. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgaredd codi arian at y banc bwyd lleol sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o effaith tlodi ar y gymuned. Yn ogystal, mae'r criw Cymraeg yn dechrau hybu'r defnydd o'r iaith yn llwyddiannus yn ystod amseroedd egwyl. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn ddigon effeithiol i gynnig syniadau a dylanwadu'n uniongyrchol ar waith yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn dangos gofal am bobl eraill trwy anfon cardiau Nadolig dwyieithog i blant yn y Wcráin, er enghraifft. Yn ogystal, wrth ddysgu am hanes mewnfudiad pobl yng nghyfnod y 'Windrush', mae llawer o ddisgyblion yn datblygu empathi am degwch a chydraddoldeb yn effeithiol. Mae cymryd rhan mewn cywaith i gydweithio â thrigolion hŷn yr ardal i ddysgu sut i wehyddu, yn datblygu hyder, medrau newydd a gwytnwch mwyafrif y disgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac yn gwybod bod rhaid iddynt beidio â datgelu eu cyfrineiriau i bobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir mewn perthynas â diet a gweithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd i ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft wrth iddynt fwynhau'r sesiynau nofio a thrwy ddefnyddio'r offer amrywiol ar fuarth yr ysgol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio cwricwlwm sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn addas. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr ar draws y meysydd dysgu i ennyn a chynnal diddordeb disgyblion, ac i ddyfnhau eu gwybodaeth yn briodol. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddewis eu themâu ar ddechrau pob tymor er mwyn eu cymell i fwynhau eu dysgu.

Mae staff yn cydweithio'n fwriadus i annog disgyblion i siarad Cymraeg o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Ar y cyfan, maent yn eu cefnogi'n dda i ymarfer yr iaith lafar yn eu gwaith a'u chwarae i ddatblygu eu rhuglder a'u medrau. Yn ogystal, mae staff yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn medrau llafar Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau ysgogol yn yr awyr agored, er enghraifft wrth eu cefnogi i ymestyn eu geirfa wrth ddisgrifio gwrthrychau yn yr amgylchfyd lleol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cynnig digon o gyfleoedd i lawer o ddisgyblion wella eu medrau ysgrifennu, yn enwedig yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen mewn sesiynau penodol. Trwy hyn, cefnogir y disgyblion i ddatblygu eu medrau i ymchwilio i nifer o destunau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt ddysgu am y Fari Lwyd. Ar y cyfan, mae medrau darllen testunau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n addas. Ar draws yr ysgol, darperir cyfleoedd cynyddol i

ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn ystod o weithgareddau buddiol. Er hynny, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion yn gyfyngedig, sy'n arafu eu cynnydd dros amser.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddathlu Cymreictod a thraddodiadau Cymreig. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfle i ddringo'r mynydd cyfagos er mwyn iddynt werthfawrogi tirluniau'r ardal leol. Yn ogystal, mae hyn yn cyfrannu at eu gallu i ddatblygu'n ddysgwyr gwydn wrth ddyfalbarhau i gyrraedd y copa. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion wrth ddefnyddio amgueddfeydd lleol i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o ddiwydiant yr ardal. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o Gymru wrth drefnu ymweliadau preswyl y tu hwnt i'r ardal leol.

Mae mwyafrif athrawon y disgyblion ieuengaf yn cynllunio ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae pwrpasol. At ei gilydd, maent yn darparu tasgau sy'n defnyddio'r ardal dysgu tu allan yn dda fel modd o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau dysgu annibynnol, cymdeithasol a chreadigol.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae gan lawer o athrawon wybodaeth briodol am anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu'n anghyson. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd sy'n cynnig her i'r rhan fwyaf o ddisgyblion gyflawni hyd orau eu gallu a gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Mae staff yn defnyddio canmoliaeth ac adborth llafar yn briodol mewn gweithgareddau i ddathlu llwyddiannau'r disgyblion a'u harwain at y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn dechrau defnyddio dulliau perthnasol i ddisgyblion fyfyrio a gwella ansawdd eu gwaith. Mae nodau'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn glir ac maent yn cael eu rhannu â'r disgyblion yn gyson. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro'n cael digon o gyfleoedd i wella safon eu gwaith yn dilyn adborth ysgrifenedig athrawon.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, ofalgar a hapus sy'n rhoi pwyslais clir ar hyrwyddo lles disgyblion yn gadarn. Mae'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm i gefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol bron bob disgybl yn llwyddiannus. Mae perthynas gyfeillgar rhwng y staff a'r disgyblion ac mae'r parch maent yn dangos at ei gilydd yn gryfder. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn gweithio'n agos gyda'r disgyblion i ddatblygu dulliau hunanreolaeth pwrpasol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i ddatrys gwahaniaethau sy'n codi rhyngddynt yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r sesiynau 'bore braf' yn yr awyr agored yn datblygu agweddau a medrau cydweithio'r disgyblion yn gadarnhaol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau i hybu iechyd a ffitrwydd, fel gwersi nofio a sesiynau ymarfer corff.

Mae athrawon yn darparu gŵyl ddawns yn flynyddol er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dawns. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r disgyblion fel unigolion iach a hyderus. Yn ogystal, ceir nifer o gyfleoedd i hybu disgyblion i wneud dewisiadau cywir ynglŷn â beth i'w fwyta.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag ADY yn briodol. Wrth ystyried anghenion pob disgybl unigol, mae'r cydlynydd ADY a'r staff yn cynllunio rhaglenni cymorth bwriadus. Mae'r cynorthwywyr yn ennyn diddordeb disgyblion yn grefftus mewn sesiynau llythrennedd a rhifedd sy'n cefnogi disgyblion i gael mynediad i'w dysgu yn dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol amrywiol i ddarparu gweithgareddau penodol a sesiynau cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae staff yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn am rai agweddau o'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd pwrpasol iddynt drafod eu syniadau ar ddechrau thema newydd. Er hyn, nid yw staff yn rhoi cyfleoedd cyson i aelodau'r cynghorau ysgol drafod a datblygu eu syniadau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gyflwyno awgrymiadau yn gynyddol annibynnol am ba elfennau o'r ddarpariaeth yr hoffent ddylanwadu arnynt.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cadarn i ddathlu a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn astudio nodweddion hanesyddol yr ardal drwy ymweld â phwll glo cyfagos, a darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu am enwogion Cymru, fel Hedd Wyn. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol a chystadlu'n frwd yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn dechrau cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fod yn rhan weithredol o'r gymuned leol a'r byd ehangach. Mae'r staff yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn addas. O fewn gwasanaethau ysgol gyfan, mae staff yn trafod sut i fod yn ddinasyddion da o fewn y gymdeithas. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn cywaith gyda grŵp o drigolion lleol ym Mlaenafon sy'n ehangu medrau ymarferol y disgyblion yn dda drwy greu darn o gelf am yr ardal. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Er bod agweddau moesol yn treiddio trwy fywyd yr ysgol yn addas, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn creu ac yn cynnal amgylchedd diogel ar gyfer pob disgybl. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu yn llwyddiannus, sy'n cynnwys diogelwch safle effeithiol. Mae ymweliadau'r heddwas lleol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ble nad yw presenoldeb eu plant yn ddigon da, sydd yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfraddau presenoldeb.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth, uwch arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion a'r ardal leol. Mae'n darparu arweinyddiaeth bwrpasol, ofalgar a, gyda'r holl staff, mae wedi meithrin diwylliant cynhwysol lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel. Mae arweinwyr yn gweithio'n gydwybodol i fodloni

anghenion pob disgybl ac i fynd i'r afael ag effaith tlodi. Mae pob aelod o staff yn dangos ymrwymiad cyson i sicrhau bod pob disgybl yn mwynhau a dysgu yn yr ysgol.

Ar ôl cyfnod ansefydlog o staffio, mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli sy'n cynnwys penodi dirprwy bennaeth newydd. Mae'r pennaeth wedi gweithio'n gydwybodol ochr yn ochr ag arweinwyr, i greu ethos tîm cryf ymhlith staff, gan sicrhau bod lles pob disgybl wrth wraidd popeth a wnânt. Mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd yn gadarnhaol. Mae gan staff ddealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau newydd ac maent yn dechrau cyflawni eu rolau'n bwrpasol. Nodwedd effeithiol o hyn yw'r modd mae'r cynorthwywyr yn ymuno ag athrawon i arwain gwahanol feysydd dysgu a phrofiad. Mae prosesau rheoli perfformiad cadarn yn cael eu gweithredu'n briodol ac, ar y cyfan, mae'r targedau'n cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff yn fwriadus. Mae'r targedau'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu arbenigedd staff ac ar wella deilliannau disgyblion, fel cynllunio mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a gwneud defnydd mwy cyson o'r ardal allanol.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n dda ac yn dangos ymrwymiad llawn i waith a bywyd yr ysgol. Maent yn cefnogi'r pennaeth yn ystyrlon ac yn gweithredu'n ddiwyd i wneud eu gorau ar gyfer y disgyblion. Trwy ymweliadau a theithiau dysgu rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau hynny sydd angen eu gwella. O ganlyniad, maent yn dechrau cefnogi a herio arweinwyr yn briodol i gaffael gwybodaeth am gryfderau a'r meysydd i'w gwella am y dysgu a'r addysgu. Fodd bynnag, nid yw trefniadau arweinwyr yn ddigon strategol a miniog i gael effaith ddigon amserol a chadarnhaol, er enghraifft i wella safonau dysgu ac addysgu. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr amserlen briodol ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi adnabod agweddau i'w gwella yn y ddarpariaeth, fel sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio a gwella eu medrau darllen Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ar gynnydd a chyflawniad disgyblion yn ddigon manwl. At ei gilydd, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael â meysydd pwysig sydd angen eu datblygu. Yn ogystal, nid yw'r adroddiadau monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon gwerthusol nac yn amlygu'r camau nesaf yn ddigon clir. O ganlyniad, mae anghysondebau yn ansawdd y ddarpariaeth ac nid yw disgwyliadau staff o gyflawniad disgyblion yn ddigon uchel a chyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac mae arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i wella lles, cynnydd a phresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn gweithredu ac yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn ddigonol. Mae'r ysgol yn datblygu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn briodol ac

mae newidiadau addas wedi'u gwneud yn y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ADY. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar yn y ddwy iaith ac mae medrau rhif disgyblion yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig Cymraeg yn ddigon adeiladol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau digidol yn ddigon effeithiol.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae staff yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau dyddiol yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau rhannu gwybodaeth drwy gynnal boreau coffi sy'n cryfhau ymwybyddiaeth rhieni o waith a disgwyliadau'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2024